



Teitl y Cyfarfod: Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) - Is-Grŵp ar Lygredd
Amaethyddol

**Dyddiad y
Cyfarfod:** 10 Ebrill 2019

Lleoliad: Swyddfeydd
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR

Yn bresennol: Zoe Henderson (Cadeirydd ac Aelod o Fwrdd CNC)
Bob Vaughan (Rheolwr Coedwigaeth a Ffermio Tir yn Gynaliadwy
CNC)
Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)
Sara Jenkins (Menter a Busnes)
Stephen Bradley (Dŵr Cymru)
Creighton Harvey (Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin)
Bernard Griffiths (FUW)
Rachel Lewis-Davies (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru)
Lorna Davis (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru)
Stephen Marsh-Smith (Cyswllt Amgylchedd Cymru)
Brian Pawson (CNC)
Helen Haider (CNC)
Marc Williams (CNC)
Matt Lowe (CNC)
Sarah Hetherington (CNC)
Geraint Weber (CNC)
Kate Snow (United Utilities)
Rhianne Jones (Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad)
Jamie McCoy (AHDB)
Kirsten Hughes (HCC)

Ymddiheuriadau: Andrew Chambers (LIC)
Betsan John (LIC)
James Dowling (LIC)
Spencer Conlon (LIC)
Meinir Wigley (CNC)
Luke Davies (LIC)

Rob McCall (CNC)
Liz Franks (Hafren Dyfrdwy)

**Hefyd yn
bresennol:**

Kevin Taylor (LIC) ar gyfer eitem 5 yn unig
Simon Evans (Prif Weithredwr Sefydliad Gwy ac Wysg) o eitem 11
ymlaen

Rhif: Eitem

2. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod gan bwysleisio'r ymrwymiad dyfal a welwyd gan aelodau i'r gwaith o atal llygredd amaethyddol. Croesawyd Kate Snow, Rheolwr Dalgylch Dŵr United Utilities fel aelod newydd o'r Is-Grŵp Ffocws. Estynnodd Zoe ei dymuniadau gorau i Brian Pawson ar ei ymddeoliad ddiwedd Ebrill.

3. Y diweddaraf ar Reoliadau Amaethyddol

Nid oedd yr un cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru (LIC) i ddod i'r cyfarfod felly darparwyd diweddariad ar y rheoliadau amaethyddol newydd gan Brian Pawson, a gadeiriodd gyfarfod olaf Grŵp Gorchwyl a Gorffen WLMF ar Reoliadau ar 21 Mawrth. Mae nodiadau'r cyfarfod Gorchwyl a Gorffen diwethaf yn parhau ar ffurf drafft ac unwaith y bydd cydweithwyr o LIC wedi'u hadolygu fe'u dosberthir ymhlith y grŵp.

Cyflawnir yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Asesiad) gan y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol (ADAS) a bydd y Gweinidog Lesley Griffiths yn ystyried unrhyw dystiolaeth ychwanegol a gyflwynir iddi ynghyd â'r Asesiad. Cytunwyd yng nghyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y byddai tystiolaeth ychwanegol yn cael ei chyflwyno yn annibynnol gan aelod-sefydliadau unigol i LIC yn uniongyrchol yn hytrach na bod Is-Grŵp WLMF yn coladu'r dystiolaeth. Wedyn gall aelodau Is-Grŵp WLMF benderfynu a ydynt yn dymuno rhannu'r dystiolaeth â gweddill yr is-grŵp. Nid oes dyddiad terfynol wedi'i bennu eto gan LIC i aelodau gyflwyno eu tystiolaeth.

Cafwyd trafodaeth yng nghyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ynghylch gweithdrefn a'r lefelau craffu ar gyfer y rheoliadau newydd pan gânt eu cyflwyno gerbron y Cynulliad.

Nodwyd yr anawsterau a gyfyd pan fo'r rheoliadau newydd yn cael eu trafod yn annibynnol ar unrhyw gynlluniau newydd o dan Brexit a'n Tir (BAOL). Cytunwyd y dylid gwahodd aelod o'r tîm BAOL i gyfarfod nesaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel y gellir ystyried y rheoliadau newydd a'r cynllun newydd i reoli tir gyda'i gilydd.

Roedd materion eraill a drafodwyd yn y cyfarfod yn cynnwys llythyr a anfonwyd gan Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant at y Gweinidog Lesley Griffiths yn mynegi pryderon ynghylch y rheoliadau newydd a'u heffaith bosibl ar ffermwyr tenant. Codwyd nifer o gwestiynau yn llythyr Dennis sy'n galw am eglurhad yn ystod y cyfarfod ar y gofynion rheoleiddio.

Cyflwynodd LIC dabl cymharol o'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer dŵr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Gan fod gan Gogledd Iwerddon ddull NVZ tiriogaeth gyfan, codwyd y fantais o gynnwys eu gofynion hwy yn y tabl. Pwysleisiwyd yr angen i gysylltu gofynion amaethyddol newydd â rheolau eraill megis ansawdd aer a thrawsgydymffurfio er mwyn sicrhau bod dull cyson yn cael ei fabwysiadu. Dim ond hanner agenda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a drafodwyd yn y cyfarfod ar 21 Mawrth a chytunwyd y byddai dyddiadau eraill yn cael eu trefnu cyn gynted â phosibl i gyfarfod.

Pwysleisiodd aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen pa mor fanteisiol oedd cael presenoldeb ADAS yng nghyfarfodydd y dyfodol i gyflwyno'u gwaith parthed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Roedd aelodau'n awyddus i gael y cyfle i ddylanwadu ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ond hwyrach mai dim ond ar ôl i'r Asesiad gael ei gwblhau y bydd ADAS yn gwneud y cyflwyniad. Dywedodd NFU Cymru eu bod yn siomedig na chawsant gyfle i weld manyleb yr Asesiad er mwyn penderfynu a oedd y fethodoleg yn dderbyniol. Hefyd, yn sylfaenol roedd angen gwneud gwaith i nodi bylchau yn y ddeddfwriaeth gyfredol a phennu pa argymhellion yn yr Adroddiad Interim ar Lygredd Amaethyddol sydd wedi llwyddo neu wedi methu. Fel modd o ddechrau dod o hyd i'r bylchau hyn, awgrymwyd y gellid defnyddio'r tabl cymharu NVZ a ddangoswyd, fodd bynnag roedd rhai aelodau'n anghytuno'n sylfaenol y byddai NVZ tiriogaeth gyfan yn darparu'r canlyniadau a ddymunir. Dywedodd NFU Cymru eu bod yn awyddus i helpu i weithredu'r holl argymhellion yn yr Adroddiad Interim, nid rhai penodol. Pwysleisiwyd yr angen i gadw i weithio ar yr holl gamau a nodir yn yr Adroddiad Interim.

Nododd y Gymdeithas Tir a Busnes fod potensial o anghysondeb rhwng y rheoliadau amaethyddol newydd a'r cynllun rheoli tir arfaethedig. Cynhelir cyfarfod gyda LIC yn fuan ynghylch llinell sylfaen reoleiddio a dywedwyd y dylid pwysleisio bryd hynny y pryderon sy'n bodoli ynghylch y cysylltiad rhwng y rheoliadau newydd a'r cynlluniau arfaethedig. Mae trafodaethau eisoes wedi'u cynnal yn LIC ar lefel polisi ynghylch yr angen am ddull cydgysylltiedig wrth ystyried y rheoliadau newydd a chynlluniau arfaethedig. Fodd bynnag teimlwyd bod angen targedu staff ar lefel uwch er mwyn cyfleu pryderon yr aelodau. Cytunwyd y dylid drafftio taflen gryno yn nodi'r negeseuon allweddol a phryderon yr aelodau.

Dyweddod United Utilities (UU) iddynt weld yn yr ymweliadau â ffermydd a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr fod llawer o ffermwyr yn methu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol, felly aneglur oedd y rhesymu ynghylch cyflwyno rheoliadau newydd heb yn gyntaf ddarparu grantiau sylweddol i ariannu gwelliannau.

Dyweddwyd bod fframwaith asesu newydd gan LIC, ond ei bod yn aneglur a ddefnyddiwyd y cyfryw fframwaith ar gyfer ar Asesiad. Roedd cam wedi'i gymryd yng nghyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen mewn perthynas â darparu eglurhad pellach ar fframwaith yr Asesiad a gaiff ei ddarparu i aelodau.

Cafwyd trafodaeth ar y gofynion rheoleiddio newydd ac a ellid gwneud newidiadau er enghraifft trwy ychwanegu rhagor o eithriadau. Pwysleisiodd CNC y byddid yn cyflwyno'r Asesiad i'r Gweinidog ynghyd â thystiolaeth bellach ac mai'r gobaith oedd y byddai hyn yn dylanwadu ar natur y rheoliadau newydd a rhai o'u mesurau. Dywedodd yr FUW y dylid targedu mesurau i'r meysydd hynny lle'r oedd galw amdanynt. Dywedodd United Utilities fod angen digon o gyllid ar ffermwyr i gydymffurfio â'r rheoliadau ac i ddod i sefyllfa economaidd gadarn. Nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru y gall fod canlyniadau anfwriadol wrth gyflwyno rheoliadau newydd megis newid mewn arferion ffermio (e.e. newid i godi tatws) a allai gael effaith ar yr eog yn sgil dŵr ffo o'r tir. Dywedodd Rhianne Jones o'r Gymdeithas Tir a Busnes nad oes angen rheoliadau ychwanegol ar ddalgylchoedd afonydd penodol sydd heb eu llygru. Roedd NFU Cymru'n codi pryderon ynghylch y baich gormodol o waith papur ar ffermwyr ac y bydd rhaid iddyn nhw dalu am ymgynghorwyr i gyflawni'r gwaith ar eu rhan. Gyda 58% o ffermwyr yn Lloegr wedi'u lleoli mewn NVZ ac 16% o gosbau Trawsgydymffurfio wedi'u cyflwyno am gofnodion NVZ annigonol, roedd mwy a mwy o bwysau yn cael ei roi ar ffermwyr, a mwy o bwysau ar eu hiechyd meddwl.

Dyweddod Dennis Matheson y dylai fod eithriadau ar waith i ffermwyr tenant lle nad oes modd iddyn nhw gael caniatâd eu landlordiaid i uwchraddio eu hoffer sefydlog, ond ni ddylen nhw fod yn achosi llygredd a dylai'r sawl sy'n llygru wynebu camau gorfodi.

CG1: Gorffen cofnodion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen diwethaf ar Reoleiddio a sefydlu dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd nesaf (Andrew Chambers, LIC a Marc Williams/Helen Haider, CNC)

CG2: Paratoi dogfen ar gyfer uwch staff LIC yn nodi pryderon is-grŵp WLMF ar y rheoliadau amaeth newydd a'u heffaith ar

gynlluniau rheoli tir arfaethedig a'u dosbarthu ymhlith gweddill yr is-grŵp (Bob Vaughan/Zoe Henderson, CNC)

CG3: Cyd-gysylltu ag uwch staff LIC i leisio pryderon is-grŵp WLMF ynghylch y rheoliadau amaeth newydd a'u heffaith ar gynlluniau rheoli tir arfaethedig (Bob Vaughan/Zoe Henderson, CNC)

CG4: Darparu esboniad pellach ar gyfer aelodau'r Is-Grŵp ar y dull asesu a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar y rheoliadau newydd (Andrew Chambers, LIC)

CG5: Dosbarthu crynodeb o ganlyniadau ymweliadau fferm a gwblhawyd gan United Utilities (Kate Snow, United Utilities)

4. Rhaglen Gyflawni Cyswllt Ffermio ar Lygredd Amaethyddol

Mae clinigau un-i-un Cyswllt Ffermio yn cael eu hysbysebu ar daflen ac wedi'u dosbarthu ymhlith 10,000 o fusnesau. Mae'r clinigau glaswelltir a seilwaith yn parhau hyd ddiwedd y Gwanwyn ac yn boblogaidd iawn. Cynigir pum sampl pridd yn rhad ac am ddim i ffermwyr. Y clinigau seilwaith yw'r mwyaf poblogaidd lle rhoddir cyngor ar y rownd Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.

Mae Cyswllt Ffermio yn edrych am 18 o ffermydd ffocws ac arddangos newydd ledled Cymru a fydd yn edrych ar brosiectau penodol yn cynnwys rheoli maetholion ac ansawdd dŵr. Mae angen i'r ffermydd hyn gwmpasu ardaloedd daearyddol helaeth a chynnwys gwahanol sectorau e.e. llaeth, cig coch, dofednod/moch a garddwriaeth. Gofynnodd Sara Jenkins i aelodau enwebu ar wefan Cyswllt Ffermio erbyn 15 Ebrill. Mae prosiectau arddangos ar ffermydd yn gweithredu am 3 blynedd a ffermydd ffocws yn cael eu hadnewyddu bob blwyddyn. Mae ffermydd arddangos yn cael eu gwirio o ran cydymffurfiaeth, ond er mwyn gweld y newidiadau dros gyfnod o amser ar fferm, hwyrach y bydd materion ar ddechrau'r prosiect a gânt eu datrys fel rhan o'r prosiect.

Mae gwaith ar y gweill i alluogi ffermwyr i gyflwyno ceisiadau am gymorth o dan y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Dywedodd United Utilities nad oedden nhw wedi gallu darparu cynghorydd i ffermwyr a chyllido gweddill yr 20% o waith cynghori ar gyfer ffermwyr (ar hyn o bryd mae'r gwaith cynghori un i un yn cael ei ariannu gan Cyswllt Ffermio gyda'r ffermwr yn talu'r 20% sy'n weddill).

Mae Geraint Weber wedi drafftio rhaglen o ddalgylchoedd a dargedir i'w cyflawni erbyn 2019-2020, gyda 36 o ddalgylchoedd newydd yn cael eu nodi gyda chamau gweithredu dilynol o'r rhaglen darged gyntaf. Dros y chwe mis nesaf bydd Geraint Weber yn gweithio gyda Sara Jenkins i ddatblygu'r rhaglen. Dywedwyd na ellir cynnal 36 o ddigwyddiadau unigol ond y gellir cyfuno digwyddiadau i gynnwys nifer o ddalgylchoedd. Mae angen cyfrif nifer y ffermydd yn y dalgylchoedd hyn

er mwyn pennu nifer y digwyddiadau. Mae'r rhaglen hon wedi gwella cydweithio ar lawr gwlad ac mae ffermwyr yn cael gwell gwasanaeth cynghori.

Dosbarthodd Sara Jenkins ddogfen i'r Is-Grŵp cyn y cyfarfod ar "*Survey responses to Farming Connect Knowledge Transfer events on Reduction Agricultural Pollution*". Nododd Zoe fod y ddogfen hon yn dda iawn ac yn cynnwys gwybodaeth werthfawr.

Yn sgil gwarchod data, ni all Sara Jenkins ddosbarthu copïau o Gynlluniau Rheol Maetholion ac Adroddiadau Seilwaith ond awgrymodd y gall cynghorydd sy'n creu'r adroddiadau hyn ddod i siarad mewn cyfarfod yn y dyfodol. Roedd trafodaeth ynghylch creu hyfforddiant i gontractwyr a modiwlau yn cwmpasu gwahanol agweddau yn hytrach na chwrs sylfaenol. Dylai trafodaethau gael eu cynnal gyda Kevin Thomas (LANTRA) i gwmpasu pa hyfforddiant contractwr mae modd iddyn nhw ei gyflawni a'r hyn y mae contractwyr wedi'i achredu ar ei gyfer. Awgrymwyd y gellid treialu'r hyfforddiant gyda ffermwyr o wahanol sectorau a chontractwyr yn gyntaf er mwyn cael adborth.

CG6: Enwebu ffermwyr ar gyfer safleoedd arddangos CFF posibl erbyn 15 Ebrill ac ymateb trwy wefan CFF:

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/farming-connect-recruiting-new-demonstration-sites-now> (Pawb)

CG7: Trafod argaeledd hwyluswyr Cyswllt Ffermio ar gyfer y Cynllun Rheoli Cynaliadwy (Kate Snow, United Utilities/Sara Jenkins, Menter a Busnes)

CG8: Dosbarthu rhestr ddrafft o ail gylch o ddalgylchoedd i aelodau'r Is-Grŵp (Geraint Weber, CNC)

CG9: Gwahodd Kevin Thomas (LANTRA) a chontractwr i fynychu cyfarfod nesaf Is-Grŵp WLMF (Marc Williams/Helen Haider, CNC)

CG10: Archwilio'r posibilrwydd o gael cynghorydd Cyswllt Ffermio i ddod i gyfarfod Is-Grŵp WLMF yn y dyfodol (Sara Jenkins, Menter a Busnes)

5. Eitemau cyfalaf heb eu cynnwys yn y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

Daeth Kevin Taylor (LIC) i'r cyfarfod i drafod rhestr yr eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy cyfredol. Dosbarthwyd papur i'r aelodau cyn y cyfarfod a oedd yn cynnwys adolygiad o eitemau cyfalaf a noddur yn Lloegr, yr Alban Gogledd Iwerddon o gymharu â'r rhai yng Nghymru. Nodwyd bod rhai o'r eitemau a restrir yn eitemau cyfalaf y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yn cael eu cwmpasu o dan y Grant Busnes i Ffermydd a Chynllun Grantiau Bach Glastir.

Holwyd a fyddai eitemau cyfalaf ychwanegol yn cael eu hystyried gan LIC ac atebwyd y byddai hyn yn bosibl. Dywedodd Kevin fod modd creu rhestr o eitemau ychwanegol ond bod rhai anawsterau o ran y gost. Awgrymwyd y dylai aelodau adolygu a blaenoriaethu'r rhestr gyfredol a gyflwynwyd i'r grŵp o eitemau cyfalaf na chânt eu hariannu o dan y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy cyn ei hanfon ymlaen at Kevin Taylor. Cytunwyd y byddai'r meini prawf ar gyfer asesu eitemau cyfalaf ar gyfer y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yn cael ei rhannu ymhlith aelodau'r is-grŵp.

Roedd llawer o eitemau cyfalaf a restrir ar gael yn Lloegr o dan gynllun grant a allai fod o fudd ac a allai wella ansawdd dŵr yng Nghymru. Nodwyd nad gosod strwythur newydd yw'r opsiwn gorau bob tro ac y gall fod yn fuddiol uwchraddio seilwaith sy'n bodoli'n barod. Cytunwyd y byddai LIC yn egluro a ellid ariannu gwaith uwchraddio i seilwaith cyfredol o dan y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Cadarnhaodd LIC bod rhywfaint o hyblygrwydd yn y cynllun i ariannu eitemau ychwanegol er enghraifft os oedden nhw'n rhan hanfodol o eitemau ar restr eitemau cyfalaf y Grant.

Dywedodd NFU Cymru nad yw ffermwyr yn ardal Casnewydd yn gallu cael mynediad at gyllid yn hawdd a'i bod yn anodd iddyn nhw ariannu gwelliannau. Maen nhw mewn ardal risg uchel ond er mwyn cynyddu cynhyrchiant a chydnerthedd mae'n anodd iddyn nhw gael mynediad at grantiau am fod yn rhaid iddyn nhw ddarparu 60% o'r gost eu hunain e.e. i osod seilwaith newydd. Y meddylfryd wrth wraidd y Grant Cynhyrchiant Cynaliadwy oedd y byddai'n gyfrwng i ffermwyr ddod yn fwy cydnerth gan wneud mwy o elw. Yn ogystal ag adolygu'r rhestr o eitemau cyfalaf na chânt eu hariannu o dan y Grant Cynhyrchiant Cynaliadwy, cytunwyd y dylid anfon datganiad o effaith gyda'r eitemau â blaenoriaeth yr hoffai'r is-grŵp eu hychwanegu. Ychwanegodd y TFA, gan na ellir defnyddio'r grant i uwchraddio strwythurau esempt cyn 1991, y gallai hyn beryglu gallu tenant i gael caniatâd landlord i sicrhau cydymffurfiaeth.

Dywedodd UU nad oedden nhw wedi llwyddo i ariannu ffermwyr oedd yn dymuno gwneud gwelliannau o dan y Grant Cynhyrchiant Cynaliadwy yng Nghymru (mae'r grant ar hyn o bryd yn 40% gyda ffermwyr yn ariannu'r 60% sy'n weddill eu hunain). Hoffai UU ddarparu cyllid cyfatebol i ffermwyr sy'n ymgeisio am grantiau. Cytunodd LIC i wirio gyda'r Swyddog Arfarnu Ariannol a oes modd i UU ariannu'r elfen sy'n weddill nad yw'n grant.

CG11: Adolygu rhestr gyfredol o eitemau cyfalaf nad ydynt ar hyn o bryd wedi'u cynnwys gan y Grant Cynhyrchiant Cynaliadwy a'i dosbarthu i aelodau'r is-grŵp (Helen Haider, CNC)

CG12: Nodi beth yw blaenoriaethau'r is-grŵp o ran y rhestr gyfredol o eitemau cyfalaf nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Grant

Cynhyrchiant Cynaliadwy. Paratoi adroddiad i'w gynnwys gyda'r rhestr flaenoriaeth a'i anfon at Kevin Taylor yn LIC (Helen Haider, CNC)

CG13: LIC i egluro a ellir ariannu gwaith uwchraddio i seilwaith cyfredol o dan y Grant Cynhyrchiant Cynaliadwy (Kevin Taylor, LIC)

CG14: Archwilio'r posibilrwydd o gael cyllid cyfatebol gan United Utilities ar gyfer grantiau LIC i ffermwyr (Kate Snow UU, Kevin Taylor LIC a Bob Vaughan CNC)

CG15: Rhannu manylion meini prawf ar gyfer asesu eitemau cyfalaf o dan y Grant Cynhyrchiant Cynaliadwy gydag is-grŵp WLMF (Kevin Taylor, LIC)

6. Trafodaeth ar Adroddiad Dadansoddiad o Wraidd y Problem (DGB)

Eglurodd Zoe Henderson fod gwaith ar ddadansoddi gwraidd y broblem (DGB) ar y gweill i helpu'r grŵp i ddeall beth yw achos llygredd amaethyddol a gofynnodd i aelodau ystyried beth y gellir ei ddefnyddio yn yr adroddiad DGB er mwyn helpu gwaith yr is-grwpiau. Mae Ian Roderick o'r Sefydliad Schumacher wedi cael adborth gan aelodau ar yr adroddiad ac yn ystod y broses DGB wedi gofyn am gymorth gan y grŵp. Eglurodd Geraint Weber fod y Sefydliad Schumacher wedi'i gomisiynu i edrych ar faterion sylfaenol sy'n achosi llygredd amaethyddol ac maen nhw wedi cynhyrchu dogfen gynhwysfawr. Mae Ian Roderick wedi ystyried llawer o adborth gan aelodau ac wedi rhoi sylw i wallau a'r iaith a welir yn yr adroddiad.

Roedd Ian Roderick yn deall amcanion yr adroddiad a'r hyn y gellid ei gyflawni gyda'r arian a'r amser a oedd ar gael a defnyddiwyd dull eang o ddadansoddi systemau. Cafwyd trafodaethau ynghylch a ellir ehangu gwaith DGB er mwyn ystyried canlyniadau hirdymor a chynaliadwyedd y sector ffermio yng Nghymru. Amlygodd y Gymdeithas Ffermwyr Tenant y manteision o gael rhywun â safbwynt o'r tu allan nad yw'n ymwneud ag amaethyddiaeth i wneud y gwaith hwn. Dywedodd CNC fod yr adroddiad DGB wedi cadarnhau bod y dull a ddefnyddir gan Is-Grŵp WLMF yn fuddiol ac nad oedd wedi nodi unrhyw fylchau arwyddocaol. Gellid defnyddio rhai o'r offer a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn ar gyfer data eraill a gesglir e.e. y Prosiect Llaeth.

Dywedodd yr FUW eu bod yn barod i drafod yr adroddiad DGB ond nad oedden nhw am i'r adroddiad gael ei gyhoeddi am fod ynddo dybiaethau gwallus a manylion anghywir. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru y dylid cyhoeddi'r adroddiad. Dywedodd y Gymdeithas Tir a Busnes y byddai'n fwy priodol ailysgrifennu'r adroddiad DGB i ddangos cefndir y gwaith, a gyda phwy yr oedd Ian Roderick wedi siarad ac ati. Nododd Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin fod angen i'r grŵp edrych mewn

mannau eraill i weld beth arall sy'n cael ei wneud i leihau llygredd amaethyddol a dysgu o brofiadau eraill fel y gallwn addasu ein camau yng Nghymru.

Trafodwyd sut y gallai'r Adroddiad DGB fod yn fuddiol i eraill y tu allan i'r Is-Grŵp ac a fyddai newid cyd-destun yr adroddiad yn ei gwneud yn fwy perthnasol i'r sawl sydd tu allan i'r grŵp. Mynegodd AHDB bryderon y byddai cyhoeddi'r adroddiad yn creu rhwystrau rhag cynnydd ar ffermydd. Dywedwyd bod yr Is-Grŵp wedi bod yn trafod achosion llygredd amaethyddol am 2 flynedd a bod pawb yn cydnabod bod problemau'n bodoli felly rhaid i'r grŵp edrych ymlaen at fynd i'r afael â'r materion hyn.

Crynowyd y drafodaeth gan Zoe Henderson a chytunodd yr aelodau na fyddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ei ffurf bresennol ar hyn o bryd.

CG16: Terfynu'r adroddiad DGB (Geraint Weber, CNC)

CG17: Nodi cyfleoedd y gellir dysgu ohonynt yn y gwaith DGB ac a ellir ehangu'r offer a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad i feysydd gwaith eraill yr Is-Grŵp WLMF (Pawb)

7. Diweddariad ar Brosiect Llaeth CNC

Ni allodd Matt Lowe ddarparu diweddariad llawn o'r prosiect fel y bwriadwyd a oedd yn cynnwys data o ymweliadau â ffermydd oherwydd ymrwymadau eraill, ond darperir hyn yn y cyfarfod ym mis Mai. Bellach mae'r Prosiect Llaeth wedi'i estyn tan 31 Gorffennaf 2020 ar ôl sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru. Bydd recriwtio pellach i gyflogi mwy o swyddogion i gynyddu cyfanswm y staff i 12.

Hyd yma cynhaliwyd 350 o ymweliadau fferm, gan y swyddogion amaethyddol sy'n cyrraedd y targed a bennwyd ar gyfer diwedd Mawrth, gyda 230 o ffermydd wedi'u cofnodi ar y gronfa ddata. Bydd y dadansoddiad o'r data yn darparu gwybodaeth am y capasiti storio slyri, maint y fuches, lefelau cydymffurfio ar gyfer strwythurau esempt a strwythurau cyn 1991. Gan fod y prosiect wedi'i estyn, bydd y niferoedd targed o ymweliadau fferm yn cael eu hadolygu a bydd adnoddau ychwanegol ar gael. Rhagwelir y cynhelir 1700 o ymweliadau ledled Cymru erbyn 2021.

Ar hyn o bryd mae CNC yn trafod gyda LIC ynghylch dyfodol y prosiect ac a ddylid cynnwys ailymweliadau â ffermydd. Amlygodd UU pa mor bwysig oedd hi i ailmweld er mwyn dysgu a oedd ffermwyr yn gwneud gwelliannau neu'n defnyddio grantiau. Codwyd y mater nad yw ffermwyr sy'n cydymffurfio â Rheoliadau SSAFO o anghenraid yn rhai risg isel.

CG18: Sicrhau digon o amser i gynnwys diweddariad Prosiect Llaeth CNC estynedig fel rhan o agenda Mai 2019 (Helen Haider,

CNC)

CG19: Cysylltu â Matt Lowe gyda manylion unrhyw geisiadau dadansoddi ychwanegol ynghylch Prosiect Llaeth CNC (Pawb)

8. Diweddariad ar Dull Gwirfoddol o Reoli Maetholion

Mae Lorna Davis wedi bod yn cysylltu â'r gymuned ffermio i godi ymwybyddiaeth o faterion ansawdd dŵr. Cynhaliwyd trydydd cyfarfod o Fwrdd Llywio'r prosiect ar 3 Ebrill 2019 gyda Dŵr Cymru, FUW, NFU Cymru, LIC ac CNC yn bresennol. Cafwyd cyflwyniadau gan Tim Stephens (Wessex Water) a Marc Williams (CNC) gyda gweithdai i ddilyn i ddatblygu dulliau o 'Ennill Cydnabyddiaeth' a ffyrdd o gyflawni rheoliadau. Cynhaliwyd trydydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ansawdd Dŵr NFU Cymru yng Ngelli Aur gyda chyflwyniad ar y Prosiect Slyri a gweithdy i ddilyn yn trafod amlinelliad o'r cynllun sicrwydd a chanllawiau ategol i gyflawni hyn.

Dosbarthwyd diweddariad ar gynnydd ymhlith y grŵp ar wahanol becynnau gwaith y prosiect a oedd yn cynnwys cynllun cyfathrebu ar gyfer y model a oedd yn cael ei ddatblygu, diweddarau cynnwys y wefan i ddarparu gwybodaeth am y manau y gallai ffermwyr ofyn am gyngor pellach. Mae NFU Cymru'n barod i rannu cynnwys eu gwefan i eraill ei ddefnyddio.

Gofynnodd Lorna Davis i aelodau rannu gwybodaeth am ansawdd dŵr ar gyfer prosiectau sy'n digwydd yn lleol er mwyn ei helpu hi wrth iddi gyfarfod â ffermwyr. Mae'r FUW ac CNC yn bwriadu datblygu digwyddiadau ar fferm gan ddechrau ar Ynys Môn gan eu cydlynu â digwyddiadau Cyswllt Ffermio a dargedir.

CG20: Rhannu Cynllun Cyfathrebu ar gyfer Dull Gwirfoddol dan Arweiniad Ffermwyr gydag aelodau is-grŵp (Lorna Davis, NFU Cymru)

CG21: Rhannu gwybodaeth am ansawdd dŵr ar gyfer prosiectau sy'n digwydd ledled Cymru gyda Lorna Davis, NFU Cymru (Pawb)

CG22: Archwilio'r potensial i'r Is-Grŵp WLMF fynd i un o ddigwyddiadau NFU Cymru yn y dyfodol (Lorna Davis, NFU Cymru)

9. Trafodaeth ar Adroddiad Cynnydd WLMF

Oherwydd bod amser yn brin cytunwyd y byddai cyfarfod Skype/telegynadleda'n cael ei drefnu i drafod yr Adroddiad Cynnydd WLMF yn fanylach.

CG23: Marc Williams (CNC) i drefnu cyfarfod Skype er mwyn trafod yr Adroddiad Cynnydd WLMF a threfnu mewnbwn gan y Gymdeithas Ffermwyr Tenant

10. Diweddariad ar gysoni gwasanaethau cynghori yng Nghymru

Nododd Zoe Henderson pa mor bwysig oedd hi i gysoni gwasanaethau cynghori a rhoi negeseuon a oedd yn gyson i ffermwyr. Amlinellodd Cyswllt Ffermio eu dull o sicrhau bod cyngor a ddarperir yn gyson:

- Asesir ansawdd (AA) yr holl gynghorwyr cyn iddynt gael eu cymeradwyo ar gyfer pob categori cynghori. Bydd pob CV yn cael ei chymharu yn erbyn manyleb a bennir gan LIC a rhaid cyflwyno dau adroddiad ar gyfer AA cyn iddynt gael eu cymeradwyo
- Mae'r holl adroddiadau yn cael AA yn annibynnol gan Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
- Mae'r adroddiad cyntaf a gyflwynir gan bob cynghorydd o dan bob categori yn cael AA ac eto ymhen 12 mis.
- Os bydd safon unrhyw adroddiad ddim ond yn agos at gyrraedd y nod, bydd tri adroddiad nesaf y cynghorydd yn cael AA.
- Mae pump y cant o'r holl adroddiadau sy'n pasio'r nod yn cael AA
- Mae cwmnïau cymeradwy ar y fframwaith yn cael DPP yn gyson
- Rhaid i bob cynghorydd gwblhau a chofnodi 20 awr o DPP bob blwyddyn

Ar hyn o bryd asesir ansawdd adroddiadau'r Prosiect Llaeth gan Uwch Staff Amaethyddol CNC a chynhaliwyd trafodaeth ar a ddylent ddilyn proses AA yn yr un modd ag adroddiadau Cyswllt Ffermio. Nododd AHDB wahaniaethau rhwng cynlluniau rheoli maetholion a wnaed ganddynt hwy a rhai gan gynghorwyr eraill ond eglurwyd y gallai'r gwahaniaeth hwn fod yn sgil cynghorwyr yn cael gwahanol wybodaeth gan ffermwyr ac y byddai hynny'n arwain at gyfrifiadau gwahanol. Nododd Stephen Marsh-Smith ei bryderon ynghylch y ffaith fod CNC yn gwneud gwaith cynghori gan mai nhw sy'n ysgwyddo'r ddyletswydd i orfodi'r rheoliadau.

Dywedwyd y dylid cael gweithdrefn weithredu safonol ar gyfer gwaith cynghori ar ffermydd ac mai dim ond un agwedd ar y fferm yw llygredd amaethyddol ond y bydd angen ystyried meysydd eraill (megis ansawdd aer). Mynegwyd yr angen i nodi gwahanol lefelau o ddealltwriaeth a'r hyn y gall cynghorwyr gwahanol ei wneud o ran eu sgiliau. Cyfeiriodd Lorna Davis at weithdrefn y mae hi wedi ei defnyddio mewn maes gwaith arall y gellid ei addasu i nodi cynghorwyr addas ar gyfer llygredd amaethyddol.

Mae Lorna Davis wrthi'n trafod cyrsiau cymeradwy ar gyfer cynghorwyr. Mae CNC wedi bod yn ceisio gosod tendr ar gyfer cyrsiau hyfforddi staff ond heb lwyddo a'u bwriad yw ailosod y tendr i drefnu hyfforddiant. Nid yw'r maes pwnc ar gyfer hyfforddiant yn gymwys i gyrsiau dysgu o bell cronfa gyllid Prifysgol Aberystwyth.

Eglurodd Stephen Marsh-Smith fod gan Afonydd Cymru 11 o swyddogion ac mae angen i bob un ohonynt gwblhau'r hyfforddiant BASIS a hyfforddiant mewnol.

CG24: Darparu manylion pellach i Matt Lowe am broses CA Cyswllt Ffermio ar gyfer adroddiadau fferm (Sara Jenkins, Menter a Busnes)

AP25: Papur cwmpasu drafft ar gyfer hyfforddiant a gwaith cynghori (Matt Lowe/Sarah Hetherington/Bob Vaughan, CNC)

CG26: Rhannu'r weithdrefn a ddefnyddiwyd yn rôl Artist Tirweddau i nodi'r sawl sydd â sgiliau a gwybodaeth benodol i gyflawni'r gwaith – gellir gwneud hyn i ddatblygu trefn debyg ar gyfer gwaith cynghori (Lorna Davis, NFU Cymru)

11. Cyflwyniad ar Brosiect AC/DC yng Nghymru

Cafwyd cyflwyniad gan Stephen Marsh-Smith ar brosiect Afonydd Cymru/Dŵr Cymru ar Afon Teifi i leihau llygredd dŵr. Prif ysgogydd y prosiect oedd y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (GFfD) gan nad oedd y dalgyrch yn llwyddo i gyflawni ei amcanion. Pwysleisiodd Stephen ragoriaeth cynnal ymweliadau un-i-un â ffermydd. Y pum dylanwad ar ansawdd dŵr a ganfuwyd oedd cloddfeydd, plaladdwyr, llygredd organig, gwaddodion ac ymyrwyr endocrin. Disgrifiwyd na ellir gweld rhai elfennau sy'n effeithio ar lygredd mewn afonydd megis dinistrio wyau pysgod.

Cyflogwyd dau gynghorydd fferm am 6 mis a thalwyd am eu hyfforddiant gan gyllid CNC a Dŵr Cymru. Gweithiodd y cynghorwyr mewn ardaloedd penodol gan ymweld yn ddirybudd, monitro camau gweithredu a chanlyniadau, cynhyrchu cynlluniau gweithredu, canfod cyllid a chynhyrchu adroddiadau fferm. Cyflawnwyd gwaith ar fonitro ansawdd dŵr a samplu infertebratau ac asesu iechyd pridd, cymeriant maetholion glaswellt/cnwd ac asesiadau seilwaith fferm.

Roedd yr adroddiadau fferm yn cynnwys arferion fferm da, trosolwg o'r daliad, cyfleoedd ar gyfer gwella, mapiau o'r ffermydd trwy ddefnyddio SCIMAP, cyfrifiadau storio/glawiad, cynllunio cnwd, gwarchod cyrsiau dŵr a gweithredu yn sgil cyllid ac ati. Defnyddiwyd SCIMAP i ragweld problemau ac roedd yn offeryn defnyddiol i ddangos i ffermwyr ble mae problemau'n digwydd. Cynhyrchwyd system mapio peryglon er mwyn helpu ffermwyr i benderfynu pa bethau y dylid neu na ddylid eu gwneud ar wahanol rannau o'r fferm.

Noddodd Dŵr Cymru dyllwr sy'n drilio rhwng y cnwd indrawn. Cyfeiriwyd at y data ansawdd dŵr cyfredol yn ogystal â data ffermydd lleol. Mae'r prosiect yn parhau ond mae'r dadansoddiad cychwynnol o'r data yn dangos bod 15% o ffermwyr wedi gwrthod cyngor ac 85% o ffermwyr wedi gweithio gydag Afonydd Cymru. Roedd y rhan fwyaf o'r cyngor a roddwyd ynghylch rhannu dŵr glân a dŵr budr. Ymwelwyd â 110 o ffermydd heb fod unrhyw fferm yn cydymffurfio'n llwyr. Gwerth ariannol y prosiect oedd £250,000.

Nid oes gwerthusiad allanol o'r prosiect wedi digwydd. Rhoddwyd rhywfaint o arian i ffermwyr yn uniongyrchol er mwyn ariannu gwelliannau. Cafwyd trafodaeth ynghylch pa waith cynghori oedd y gorau o ran cyflawni canlyniadau. Cytunwyd y byddid yn darparu crynodeb o ganlyniadau Prosiect AC/DC i aelodau'r is-grŵp.

Diolchodd Stephen Marsh-Smith i Dŵr Cymru am gymryd rhan ym Mhrosiect AC/DC i gyflawni gwelliannau i ddalgylchoedd.

CG27: Darparu manylion ynghylch nifer yr ymweliadau fferm ar Afon Ceri i aelodau Is-Grŵp WLMF (Stephen Marsh-Smith, CAC)

CG28: Darparu manylion canlyniadau Prosiect AC/DC i aelodau'r Is-Grŵp (Steven Bradley, Dŵr Cymru)

12. Cyflwyniad gan Simon Evans – “After Regulation – what next?”

Cafwyd cyflwyniad gan Simon Evans o Sefydliad y Wysg a'r Gwy (WUF) ar waith a gyflawnwyd gan ffermwyr ar Afon Wysg. Mae WUF wedi bod yn nodi ffyrdd o ymgysylltu â ffermwyr ynghylch priddoedd. Proses raddol yw hon wedi bod, o gynyddu gwaith gyda ffermwyr yn cynnwys cymorth gan gymheiriaid a sicrhau pris teg am gynnyrch. Cynhaliwyd prosiect partneriaeth ar ddalgylch y Gwy i ddatrys problemau megis ffosffadau yn y dŵr, colli pridd a phlaladdwyr i wella cynaliadwyedd a phroffidioldeb ffermio. Disgrifiodd Simon sut mae ffermwyr yn cydweithio i leihau pecynnu plastig. Bellach mae'r ffocws ar y Gwy yng Nghymru lle gobeithia Simon y bydd dull partneriaeth tebyg i'r dull yn Lloegr yn cael ei fabwysiadu.

Mae'r Gwy a'r Wysg yn ddalgylchoedd afon bregus ac yn ardal sy'n ffynhonnell fwyd allweddol. Mae wyth o gwmnïau yn Lloegr wedi buddsoddi mewn ffermwyr yn y Gwy a'r Wysg ac wedi gwneud cytundebau sy'n cefnogi ffermwyr. Telir 2 geiniog ychwanegol y litr i ffermwyr llaeth am gyflawni nifer o gamau gweithredu megis cael capasiti i storio slyri am 5 mis. Hefyd mae'r prosiect yn ystyried ymgorffori targedau ar gyfer dal a storio carbon.

Cyfarfu bwrdd bwyd amaeth y Gwy a'r Wysg ar 4 Mawrth er mwyn nodi bygythiadau a chyfleoedd yn y sector ac i egluro'r hyn sy'n ofynnol gan brynwyr.

Gellir noddi'r dull partneriaeth trwy farchnadoedd cyfalaf cenedlaethol, gellir darparu cyngor trwy'r trydydd sector a gellir hyrwyddo trwy ffermwyr rhagorol. Eglurodd Simon yr angen am lwyfan rheoleiddio a phwysigrwydd CNC o ran gorfodi'r rheoliadau. Daeth y cyllid ar gyfer y rhaglen o Golofn II, cynlluniau amaeth-amgylcheddol ac arian cynllun Coulthard. Y gwahaniaeth yn Lloegr yw nad oes yno wasanaeth cyngori a ariennir fel sydd yng Nghymru (Cyswllt Ffermio).

Mae Simon yn trafod gyda phrynwyr yng Nghymru i geisio sicrhau cydgyfrifoldeb am gynaliadwyedd ffermydd. Cafwyd rhywfaint o lwyddiant yn barod, yn y sectorau llaeth a ffrwythau meddal, ond nid yw'n eglur a ellir defnyddio'r un dull yn y sector cig coch. Disgrifiwyd y prosiect fel cynllun er lles y cyhoedd a ariennir yn breifat. Y syniad yw defnyddio ffermwyr ar y bwrdd amaeth yn hytrach na mynd at gyflenwyr.

Er mwyn annog newid, nid oes unrhyw gamau gorfodi yn cael eu cymryd yn erbyn ffermwyr. Gall ffermwyr Arla a Mueller ddewis gwneud newidiadau nad ydynt yn cael eu gorfodi – mae hyn yn arwain at gynyddu ffiniau elw. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut mae ffermwyr a chynhyrchwyr yn cael eu cydnabod am y gwaith maen nhw wedi'i gyflawni i ffermio'n fwy cynaliadwy y tu hwnt i fuddion ariannol.

CG28: Dosbarthu cyflwyniadau Simon Evans a Stephen Marsh-Smith i aelodau'r Is-Grŵp (Helen Haider, CNC)

13. Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd nesaf yr Is-grŵp

Cadarnhawyd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd Is-Grŵp WLMF yn 2019. Cynhelir cyfarfod 8 Gorffennaf yn swyddfa CNC ym Mangor gydag ymweliad safle ym Mae Cemaes, Ynys Môn.

Awgrymodd Lorna Davis y gellid ymweld â fferm arbrofol Ymddiriedolaeth Adar a Bywyd Gwyllt yn Lloegr ac awgrymodd y gallai cynrychiolydd roi cyflwyniad yn un o gyfarfodydd nesaf Is-Grŵp WLMF.

Gwahoddir Kevin Thomas (LANTRA) i roi sgwrs yng nghyfarfod Is-Grŵp WLMF ym mis Mai yn ogystal â chontractwr.

Wrth i'r Sioe Fawr ddynesu, cytunwyd i ychwanegu eitem agenda ar gyfathrebu yn y Sioe yng nghyfarfod nesaf yr Is-Grŵp WLMF. Trafodwyd a oedd aelodau yn cymryd rhan yn y Sioe fel grŵp. Mae Lorna Davis yn trefnu seminar ar gyfer y Sioe ac yn bwriadu gwahodd aelodau Is-Grŵp WLMF i sesiwn holi ac ateb.

Codwyd mater cynllunio a datblygiadau amaethyddol gan atgoffa aelodau i gysylltu â Helen Haider/Marc Williams os oedd ganddyn nhw bryderon penodol neu enghreifftiau mewn perthynas â'r mater hwn. Byddid yn trafod cynllunio a datblygiadau amaethyddol eto yng nghyfarfod Is-Grŵp WLMF yn y dyfodol.

Bwriedir cynnal sesiwn ar Arloesi yng nghyfarfod yr Is-grŵp WLMF ym Mehefin gyda chydweithwyr o LIC yn cynnal gweithdy i nodi cyfleoedd ar gyfer arloesi yn y sector.

CG29: Nodi safleoedd ar gyfer ymweliadau Is-Grŵp WLMF yn y dyfodol (Helen Haider, CNC)

CG30: Cysylltu â Lorna Davis ynghylch ymweliad posibl â safle ar gyfer fferm arbrofol GWCT yn Lloegr (Helen Haider)

CG31: Archwilio'r potensial ar gyfer cyflwyniad gan rywun o GWCT yn un o gyfarfodydd Is-Grŵp WLMF yn y dyfodol (Lorna Davies, NFU Cymru)

CG32: Ychwanegu eitem gwmpasu a diweddariad ar faterion gwaith cynllunio WLMF at agenda yng nghyfarfodydd y dyfodol (Helen Haider/Marc Williams, CNC)

CG33: Coladu manylion pryderon aelodau'r Is-Grŵp ynghylch datblygiadau amaethyddol a systemau cynllunio defnydd tir (Helen Haider/Marc Williams, CNC)

CG34: Sicrhau bod yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf yr Is-Grŵp ym Mai 2019 yn cynnwys eitem ar gyfathrebu a hefyd ar y Sioe Fawr. (Helen Haider, Meinir Wigley)

CG35: Trefnu sesiwn arloesi ar gyfer cyfarfod Is-Grŵp WLMF ym Mehefin (Bob Vaughan/Helen Haider, CNC)

CG36: Gwahodd aelodau Is-Grŵp WLMF i sesiwn holi ac ateb yn y Sioe Fawr (Lorna Davis, NFU Cymru)

14. Cofnodion cyfarfod Is-Grŵp WLMF ar 11 Mawrth a Chamau Gweithredu sy'n parhau

Nodir rhestr y camau gweithredu sy'n parhau o gyfarfod diwethaf yr Is-Grŵp WLMF mewn glas fel a ganlyn:

CG6: Dosbarthu adroddiad ynghylch capasiti cynghori i Is-Grŵp WLMF (Stephen Marsh-Smith, CAC)

CG8: Paratoi cynnig yn disgrifio sut y gellir cysoni'n well y gwasanaethau cynghori cyfredol ledled Cymru er mwyn sicrhau cysondeb (Matt Lowe, CNC/Lorna Davis, NFU Cymru/Sara Jenkins, Menter a Busnes/Stephen Marsh-Smith, CAC)

CG15: Dosbarthu hysbysiad cryno drafft ar ddefnyddio maetholion i Is-Grŵp WLMF (Lorna Davis, NFU Cymru)

CG16: Darparu sylwadau i NFU Cymru ar yr hysbysiad cryno drafft ar

ddefnyddio maetholion (Pawb)

AP17: Paratoi brawddeg safonol i ymddangos ar holl gyhoeddiadau Mentrau Gwirfoddol (Brian Pawson, CNC a Lorna Davies/Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru)

15. Diweddariad ar weithgareddau perthnasol y dyddiadur

Mae AHDB yn lansio ffermydd llaeth strategol sy'n rhaglen wella a ariennir yn rhannol gan LIC ac sy'n digwydd ar y cyd â Cyswllt Ffermio. Bwriedir lansio pedair fferm eleni gan ddatblygu i wyth o ffermydd yn y dyfodol. Bydd y ffermydd yn seiliedig ar systemau a hwyrach y bydd cyfleoedd i gysylltu â themâu llygredd amaethyddol.

CG37: Dosbarthu manylion y dyddiadau lansio ar gyfer rhaglen gwella ffermydd AHDB i aelodau'r Is-Grŵp (Jamie McCoy, AHDB)

16. Unrhyw Fater Arall

Gofynnodd swyddogion prosiect llaeth a oes modd rhyddhau datganiad i'r wasg mewn perthynas â chynnal a chadw claddfa silwair cyn y toriad silwair cyntaf

CG38: Cysylltu â Meinir Wigley, CNC i archwilio'r posibilrwydd o ddatganiad i'r wasg ynghylch cynnal a chadw claddfeydd silwair (Marc Williams, CNC)
